cwmpas

Ar gyfer newid economaidd a chymdeithasol

# Polisi Amgylcheddol

Dyddiad diweddaru diwethaf:
16 Tachwedd 2022
Fersiwn rhif: 6.1
Awdur: Rheolwr AD a Chymorth Corfforaethol

cwmpas

# Cynnwys


Cynnwys .......... **Error! Bookmark not defined.**

Datganiad polisi .......... 5

Cwmpas .......... 5

Gweithdrefn .......... 5

- Gweithgareddau Gweithredol .......... 5
- Cyfrifoldebau .......... 6
- Rhwymedigaethau Cydymffurfio .......... 6
- Cofrestr Agweddau Amgylcheddol .......... 7
- Cynllun Atal Llygredd .......... 7
- Amcanion a Thargedau .......... 7
- Cyfathrebu Mewnol ac Allanol .......... 8
- Gwelliant Parhaus .......... 9
- Monitro a Gwerthuso .......... 9

Adolygiad .......... 10

Atodiad 1: Cyfrifoldebau Cyffredinol .......... 11

- Aelodau'r Bwrdd .......... 11
- Prif Weithredwr .......... 11
- Uwch Dîm Arwain .......... 11
- Tîm Rheoli .......... 11
- Cynrychiolydd Rheoli Amgylcheddol ("Person Cymwys") .......... 12
- Unigolion (yn berthnasol i bob gweithiwr, staff asiantaeth, contractwr ac ymwelydd) .......... 12

Atodiad 2: Hierarchaeth Wastraff .......... 13

| Fersiwn Rhif | Statws | Rheswm | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Drafft | Drafft cychwynnol gan y Prif Weithredwr | Mehefin 2014 |
| 1.1 | Terfynol | Cytunwyd gan y Bwrdd | Mehefin 2014 |
| 1.2 | Terfynol | Adolygiad Blynyddol gan Swyddogion a Logo Newydd | Medi 2015 |
| 1.3 | Terfynol | Adolygwyd a diwygiwyd gan y Tîm Gwyrdd a'r Uwch Dîm Rheoli | Ionawr 2017 |
| 2.0 | Drafft | Adolygwyd gan y Rheolwr Adnoddau Dynol a Chymorth Corfforaethol | Hydref 2018 |
| 2.1 | Drafft | Adolygwyd gan y Prif Weithredwr | Tachwedd 2018 |
| 2.2 | Drafft | Adolygwyd gan y Tîm Gwella Ansawdd | 21 Tachwedd 2018 |
| 2.3 | Cymeradwywyd | Cymeradwywyd gan y Prif Weithredwr | 22 Tachwedd 2018 |
| 3.1 | Adolygiad | Adolygwyd gan y Rheolwr AD a Chymorth Corfforaethol | 15 Tachwedd 2019 |
| 3.2 | Cymeradwywyd | Cymeradwywyd gan y Prif Weithredwr | 15 Tachwedd 2019 |
| 4.1 | Adolygiad | Adolygwyd gan y Rheolwr AD a Chymorth Corfforaethol | 9 Rhagfyr 2020 |
| 4.2 | Cymeradwywyd | Cymeradwywyd gan y Prif Weithredwr | 15 Rhagfyr 2020 |
| 5.1 | Adolygiad | Adolygwyd gan y Rheolwr AD a Chymorth Corfforaethol | 10 Tachwedd 2021 |
| 5.2 | Cymeradwywyd | Cymeradwywyd gan y Prif Weithredwr | 23 Tachwedd 2021 |
| 6.1 | Adolygiad | Adolygwyd gan y Rheolwr AD a Chymorth Corfforaethol | 16 Tachwedd 2022 |
| 6.2 | Cymeradwywyd | Cymeradwywyd gan y Prif Weithredwr | 16 Tachwedd 2022 |

Mae Cwmpas yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287R.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a'n nod yw darparu gwasanaeth o'r un safon yn y ddwy iaith.

# Datganiad polisi

1.1 Credwn y dylai ein heconomi a'n cymdeithas weithio'n wahanol, gan roi pobl a'r blaned yn gyntaf.

1.2 Rydym yn cydnabod ac yn ymrwymo i'r rhwymedigaethau cyfreithiol a moesol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

1.3 Bwriad y ddogfen hon yw cyfleu ein hymrwymiad yn glir, a dogfennu ein System Reoli Amgylcheddol (EMS) a fydd yn sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni. Mae'r EMS yn cynnwys:

- Ymrwymiad ar lefel uwch i ddiogelu'r amgylchedd
- Darparu'r adnoddau angenrheidiol i sicrhau llwyddiant
- Nodi a chydymffurfio â rhwymedigaethau rheoleiddiol a gwirfoddol
- Nodi a gwerthuso'r effeithiau amgylcheddol sy'n deillio o weithgareddau gweithredol
- Atal llygredd ac effeithiau amgylcheddol eraill lle bynnag y bo modd
- Nodi a mabwysiadu arferion gwaith sy'n atal niwed a dirywiad yr amgylchedd naturiol lle bynnag y bo modd
- Gosod ac adolygu amcanion a thargedau amgylcheddol
- Cyfathrebu materion amgylcheddol
- Cadarnhau cyfrifoldebau penodol pobl yn y sefydliad
- Monitro a gwerthuso'r EMS i sicrhau gwelliant parhaus.

# Cwmpas

2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl weithwyr a gweithrediadau Cwmpas.

# Gweithdrefn

## Gweithgareddau Gweithredol

3.1 Rydym yn asiantaeth ddatblygu sy'n gweithio tuag at newid cadarnhaol yng Nghymru a ledled y DU.

3.2 Mae ein strategaeth yn amlinellu tair cenhadaeth strategol:

1. Creu economi decach, wyrddach: Rydym yn gweithio i gynyddu'r gyfran o'r economi sy'n fentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a busnesau sy'n eiddo i weithwyr.
2. Adeiladu cymdeithas fwy cyfartal: Rydym yn gweithio i ddatblygu cyfiawnder cymdeithasol drwy gynyddu mynediad, tegwch, amrywiaeth a chyfranogiad.
3. Gwneud i newid cadarnhaol ddigwydd: Rydym yn gweithio mewn cydweithrediad â phobl a sefydliadau i weithredu er lles cymdeithasol.

3.3 Yn ogystal, rydym wedi gosod nod trawsbynciol i ni'n hunain yn erbyn pob rhan o'n gwaith i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Fel rhan o hyn, rydym wedi gwneud ymrwymiad clir i fod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030.

3.4 Mae natur ein busnes yn golygu bod gweithgareddau gweithredol yn ein holl safleoedd yn weinyddol eu natur. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod pob gweithgarwch dynol yn cael effaith amgylcheddol.

3.5 Rhwng 2020 a 2022, gwnaethom adael pob swyddfa a oedd ar brydles hirdymor ar draws Cymru o blaid gweithio gartref a defnyddio mannau gweithio hyblyg a rennir ar draws Cymru lle mae angen gweithio ar y cyd "wyneb yn wyneb".

## Cyfrifoldebau

3.6 Amlinellir cyfrifoldebau cyffredinol sy'n gysylltiedig â materion amgylcheddol i bobl ar bob lefel o Cwmpas yn Atodiad 1. Dylid nodi mai fel canllaw cyffredinol y bwriedir y cyfrifoldebau a restrir. Nid ydynt yn hollgynhwysol.

3.7 Rydym yn disgwyl i bobl weithio ac ymddwyn mewn modd sy'n ymwybodol o'r amgylchedd. Pan fydd aelod o staff yn methu â chyflawni ei rwymedigaethau amgylcheddol dro ar ôl tro, bydd hyn yn cael ei ystyried fel achos o dorri'r polisi hwn a gellir cymryd camau disgyblu yn unol â'n Polisi Disgyblu.

## Rhwymedigaethau Cydymffurfio

3.8 Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddio neu ymrwymiadau gwirfoddol eraill. Nodir y rhain yn y Gofrestr Cydymffurfiaeth.

3.9 Mae'r Gofrestr Cydymffurfiaeth yn cael ei chynnal gan y Rheolwr AD a Chymorth Corfforaethol, a chaiff ei hadolygu'n flynyddol o leiaf ar y cyd â'r Prif Weithredwr. Bydd adolygiadau'n cynnwys gwiriadau cyfnodol yn erbyn ffynonellau deddfwriaeth amgylcheddol a thanysgrifiad i wasanaethau sy'n darparu diweddariadau awtomatig.

3.10 Oherwydd natur risg isel ein gweithgareddau busnes, ni ragwelir y bydd achosion o dorri'r gofrestr cydymffurfiaeth yn codi. Fodd bynnag, pan nodir problemau cydymffurfiaeth, bydd y rhain yn cael eu cofnodi yn myHR. Mae cofnodion myHR yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a, lle mae materion yn cael eu cofnodi, bydd hyn yn sbarduno proses o ymchwilio a chamau unioni. Hysbysir y Bwrdd am achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth. Bydd canlyniadau camau unioni'n cael eu cofnodi a'u hadolygu er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd.

3.11 Byddwn yn cysylltu â Gweinyddwr Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn Groundwork cyn gynted â phosibl hefyd os bydd achos o ddiffyg cydymffurfiaeth â

gofyniad cyfreithiol yn codi ac yn arwain at godi gwŷs ar gyfer erlyniad, hysbysiad gorfodi neu hysbysiad atal.

## Cofrestr Agweddau Amgylcheddol

3.12 Rydym yn nodi'r agweddau amgylcheddol allweddol sy'n deillio o'n gweithgarwch dynol neu weithredol, yn asesu eu difrifoldeb ac yn nodi mesurau rheoli a fydd yn lleihau'r risg lle bynnag y bo modd.

3.13 Mae'r rhain wedi'u dogfennu yn y Gofrestr Agweddau Amgylcheddol, sy'n cael ei chynnal gan y Rheolwr AD a Chymorth Corfforaethol ac a fydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol o leiaf ar y cyd â'r Prif Weithredwr.

3.14 Rydym yn defnyddio'r hierarchaeth wastraff i drin y gwastraff nad yw'n beryglus rydym yn ei gynhyrchu. Mae manylion yr hierarchaeth wastraff yn Atodiad 2.

## Cynllun Atal Llygredd

3.15 Rydym yn cynnal Cynllun Atal Llygredd, sy'n ystyried y Gofrestr Agweddau Amgylcheddol.

3.16 Nod y Cynllun Atal Llygredd yw lleihau'r risgiau amgylcheddol a darparu ymateb effeithiol i unrhyw ddigwyddiad posibl.

3.17 Mae'r Cynllun Atal Llygredd yn disgrifio risgiau llygredd a mesurau arfaethedig i atal digwyddiadau llygredd ac mae'n disgrifio mesurau arfaethedig i liniaru effeithiau amgylcheddol sy'n deillio o ddigwyddiadau llygredd.

3.18 Rydym yn falch nad ydym erioed wedi profi digwyddiad llygredd ond, pe bai digwyddiad yn codi, byddai'n yn cael ei gofnodi yn y cyfleuster myHR. Mae cofnodion myHR yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a, lle mae materion yn cael eu cofnodi, bydd hyn yn sbarduno proses o ymchwilio a chamau unioni. Hysbysir y Bwrdd am ddigwyddiadau llygredd. Bydd canlyniadau camau unioni'n cael eu cofnodi a'u hadolygu er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd.

3.19 Mae'r Cynllun Atal Llygredd yn cael ei gynnal gan y Rheolwr AD a Chymorth Corfforaethol, a chaiff ei adolygu'n flynyddol o leiaf ar y cyd â'r Prif Weithredwr.

3.20 Yn ogystal, mae gennym "Gynllun Parhad Busnes" llawn ar waith sy'n rhoi arweiniad pe bai achos o darfu neu drychineb sylweddol.

## Amcanion a Thargedau

3.21 Gan ystyried y Gofrestr Effaith Amgylcheddol, y Gofrestr Agweddau Amgylcheddol, y Cynllun Atal Llygredd ac ymrwymiadau sefydliadol eraill, rydym wedi nodi lle mae ein gweithgareddau'n cael effaith ar yr amgylchedd ac wedi gosod amcan a tharged i ni'n hunain.

- Ein hamcan yw cyflawni ein nod strategol o greu economi decach, wyrddach.
- Ein targed yw bod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030.

3.22 Er mwyn cyflawni'r rhain, rydym wedi creu cynllun gweithredu. Mae'n amlinellu meysydd thematig allweddol yn ymwneud â'r canlynol:

- Gwneud ymrwymiad clir i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a dwyn ein hunain i gyfrif am gynnydd
- Cyfrifo ein heffaith amgylcheddol o ran ôl troed carbon
- Lleihau ein hôl troed carbon
- Hyrwyddo ac annog ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith staff, cleientiaid a rhanddeiliaid eraill
- Cyfathrebu ein hymrwymiad yn fewnol ac yn allanol

3.23 Yn ogystal, mae'r cynllun gweithredu'n nodi'r canlynol:

- camau gweithredu penodol
- unigolyn(ion) cyfrifol
- yr adnoddau sydd eu hangen
- amserlenni
- meini prawf monitro / dangosyddion gwerthuso ar gyfer asesu cynnydd

3.24 Bydd y cynllun gweithredu'n cael ei adolygu a'i ddiwygio yn ôl yr angen i adlewyrchu newidiadau yn yr EMS, a/neu gyflawniadau, yn unol â gwelliant parhaus.

## Cyfathrebu Mewnol ac Allanol

3.25 Byddwn yn cyfathrebu gwybodaeth fel yr amlinellir isod:

| Beth | Pryd | I Bwy | Sut |
|---|---|---|---|
| Polisi Amgylcheddol | Yn flynyddol neu wrth ei ddiweddaru | Aelodau'r Bwrdd | Cyfarfod Bwrdd/Risg ac Archwilio |
| | | Gweithwyr | myHR, Cysylltu |
| | | Y cyhoedd | Gwefan |
| | | Groundwork Cymru | EMS y Ddraig Werdd |
| Cofrestr cydymffurfiaeth | Yn flynyddol neu wrth ei ddiweddaru | Gweithwyr | SharePoint |
| | | Groundwork Cymru | Archwiliad blynyddol |
| Cofrestr Agweddau Amgylcheddol | Yn flynyddol neu wrth ei ddiweddaru | Gweithwyr | SharePoint |
| | | Groundwork Cymru | Archwiliad blynyddol |
| Cynllun atal llygredd | Yn flynyddol neu wrth ei ddiweddaru | Gweithwyr | SharePoint |
| | | Groundwork Cymru | Archwiliad blynyddol |
| Cynllun Gweithredu Amcanion a | Yn flynyddol neu wrth ei | Gweithwyr | SharePoint |
| | | Groundwork Cymru | Archwiliad blynyddol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Thargedau | ddiweddaru | | |
| Data monitro | Yn flynyddol neu wrth ei ddiweddaru | Gweithwyr | SharePoint |
| | | Groundwork Cymru | Archwiliad blynyddol |
| Adroddiad Amgylcheddol | Yn flynyddol neu wrth ei ddiweddaru | Gweithwyr | Cysylltu |
| | | Y cyhoedd | Gwefan |
| | | Groundwork Cymru | Archwiliad blynyddol |

3.26 Byddwn yn cyfleu gwybodaeth arall sy'n ymwneud â materion amgylcheddol drwy gyfarfodydd Bwrdd a/neu staff, y safle mewnrwyd, cylchlythyrau staff, blogiau neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol fel y bo'n briodol.

3.27 Bydd y cyfrifoldeb dros ymateb i gyfathrebiadau allanol yn cael ei gytuno gan yr Uwch Dîm Arwain a'i ddirprwyo i unigolyn priodol, yn dibynnu ar y cyd-destun. Bydd manylion gohebiaeth yn cael eu darparu i'r person sy'n gyfrifol am reoli'r EMS (y Rheolwr AD a Chymorth Corfforaethol ar hyn o bryd).

3.28 Bydd cyflenwyr a chontractwyr yn cael gwybod am unrhyw feini prawf yn ymwneud â chaffael moesegol fel rhan o'r broses gaffael. Bydd darparwyr dan gontract yn cael eu cyfeirio at y Polisi Amgylcheddol.

3.29 Anogir staff i hyrwyddo arferion amgylcheddol da a rhannu ein hymrwymiad i wella ein perfformiad amgylcheddol ein hunain gyda phobl a sefydliadau eraill.

## Gwelliant Parhaus

3.30 Rydym wedi ymrwymo i wella ein dulliau rheoli amgylcheddol a'n perfformiad yn barhaus.

3.31 Yn benodol, byddwn yn ceisio gwella:

- ein dealltwriaeth o'n heffeithiau amgylcheddol a'r ffyrdd mae gweithgareddau dynol a gweithredol yn eu hachosi
- ein gallu i fynd i'r afael â'r effeithiau amgylcheddol hyn
- perfformiad amgylcheddol mesuradwy.

## Monitro a Gwerthuso

3.32 Bydd effeithiolrwydd yr EMS yn cael ei fonitro a'i werthuso yn seiliedig ar:

- Ddata perthnasol sy'n gysylltiedig ag amcanion a thargedau
- Canfyddiadau dogfennau allweddol megis y Gofrestr Cydymffurfiaeth, y Gofrestr Agweddau Amgylcheddol a'r Cynllun Atal Llygredd
- Canlyniadau archwiliad allanol gan sefydliadau megis Groundwork Cymru
- Unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth neu ddigwyddiadau llygredd.

3.33 Lle bo angen, bydd camau gwella'n cael eu cymryd.

## Adolygiad

2

2.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Rheolwr AD a Chymorth Corfforaethol, neu’n gynt os bydd newidiadau deddfwriaethol neu gydymffurfiaeth perthnasol.

2.2 Dyddiad yr adolygiad nesaf yw Tachwedd 2023.

Llofnod y Prif Weithredwr: Dyddiad: 16 Tachwedd 2022



# Atodiad 1: Cyfrifoldebau Cyffredinol

## Aelodau’r Bwrdd

- Cyfrifoldeb terfynol dros bob agwedd ar reoli amgylcheddol.
- Cadarnhau unrhyw ddogfennau gweithdrefnol newydd.

## Prif Weithredwr

- Cyfrifoldeb dirprwyedig dros ddarparu pob agwedd ar reoli amgylcheddol yn weithredol.
- Cyfrannu at ddatblygu unrhyw ddogfennau gweithdrefnol newydd.
- Cymeradwyo dogfennau newydd a diwygiedig.

## Uwch Dîm Arwain

- Sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael yr un sylw â phob penderfyniad strategol neu weithredol arall.
- Sicrhau, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol, bod trefniadau effeithiol ar waith i ddiogelu'r amgylchedd.
- Sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu darparu fel y gellir bodloni ymrwymiadau amgylcheddol.
- Sicrhau bod risgiau amgylcheddol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gyda'r bwriad o sefydlu risgiau ar draws y sefydliad, a lliniaru'r risgiau hynny cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn enwedig wrth gamu i feysydd busnes newydd.  Lle na ellir dileu risgiau, eu hadolygu'n rheolaidd.
- Arwain drwy esiampl bersonol a gosod safonau uchel i staff o ran rheoli amgylcheddol.
- Adolygu gwybodaeth amgylcheddol er mwyn monitro ac adolygu effeithiolrwydd y System Reoli Amgylcheddol, yn flynyddol o leiaf neu yn dilyn newid sylweddol neu ddiffyg cydymffurfiaeth.
- Sicrhau cydymffurfiaeth gyffredinol â'n polisi a'n gweithdrefnau amgylcheddol.

## Tîm Rheoli

- Sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael yr un sylw â phob penderfyniad strategol neu weithredol arall
- Sicrhau, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol, bod trefniadau effeithiol ar waith i ddiogelu'r amgylchedd.
- Sicrhau bod risgiau amgylcheddol yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gyda'r bwriad o sefydlu a lliniaru risg cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.  Lle na ellir dileu risgiau, eu hadolygu'n rheolaidd a hysbysu'r Uwch Dîm Arwain amdanynt.
- Arwain drwy esiampl bersonol a gosod safonau uchel i staff o ran rheoli amgylcheddol.
- Sicrhau bod staff yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain yn ymwybodol o bolisi a gweithdrefnau amgylcheddol Cwmpas, ac yn cydymffurfio â nhw, a chyfathrebu unrhyw newidiadau.

## Cynrychiolydd Rheoli Amgylcheddol ("Person Cymwys”)

- DS – Y Rheolwr AD a Chymorth Corfforaethol sy'n ymgymryd â'r rôl hon ar hyn o bryd.
- Gweithredu a chynnal y System Reoli Amgylcheddol.
- Sicrhau bod y System Reoli Amgylcheddol wedi'i hintegreiddio ar draws holl weithgareddau'r sefydliad.
- Cadw'r Polisi Amgylcheddol, y Gofrestr Cydymffurfiaeth, y Cynllun Atal Llygredd a'r Gofrestr Agweddau Amgylcheddol yn gyfredol.
- Cydgysylltu amcanion, targedau a gwelliannau amgylcheddol.
- Monitro perfformiad a chymhwysedd amgylcheddol.
- Cyfathrebu ar faterion amgylcheddol (yn fewnol ac yn allanol).
- Sicrhau bod staff yn ymwybodol o gyfrifoldebau amgylcheddol, ymrwymiadau, rolau, awdurdodau a pherfformiad amgylcheddol.
- Adrodd i'r Uwch Dîm Arwain ar berfformiad amgylcheddol y sefydliad ac effeithiolrwydd ei System Reoli Amgylcheddol.
- Gweithredu ar unrhyw adroddiadau am ddigwyddiadau, neu ymddygiad, dulliau gwaith neu offer niweidiol i'r amgylchedd a chychwyn camau adferol i atal hyn rhag digwydd eto.

## Unigolion (yn berthnasol i bob gweithiwr, staff asiantaeth, contractwr ac ymwelydd)


- Gweithio mewn modd sy'n ystyriol o'r amgylchedd a hyrwyddo'r dull hwn o ymdrin ag eraill lle bynnag y bo modd.
- Cadw at egwyddorion yr Hierarchaeth Wastraff, fel y manylir yn Atodiad 2.
- Cadw at ein polisi a'n gweithdrefnau amgylcheddol.
- Rhoi gwybod i'r rheolwr ar unwaith os ydych chi'n rhan o unrhyw ddigwyddiad neu'n gweld unrhyw ddigwyddiad sy'n cael effaith andwyol amgylcheddol.
- Rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiad amgylcheddol drwy'r swyddogaeth adrodd damweiniau myHR.

# Atodiad 2: Hierarchaeth Wastraff

Mae'r hierarchaeth wastraff yn system o reoli gwastraff sy'n graddio opsiynau yn ôl yr hyn sydd orau i'r amgylchedd.

Mae'n blaenoriaethu atal gwastraff yn y lle cyntaf. Pan fydd gwastraff yn cael ei greu, mae'n rhoi blaenoriaeth i'w baratoi i'w ailddefnyddio, yna ailgylchu, yna adfer, ac yn olaf gwaredu (tirlenwi).

Mae'r hierarchaeth wastraff i'w gweld yn Erthygl 4 y Fframwaith Gwastraff diwygiedig (Cyfarwyddeb 2008/98/EC)




I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch ar y ddolen isod:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69403/pb13530-waste-hierarchy-guidance.pdf